O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2697 (Cy. 289)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cerbytffordd Tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 23 (Llanddulas) a Chyffordd 24 (Abergele), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed *9 Tachwedd 2011*

Yn dod i rym *15 Tachwedd 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer - Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu gyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Tachwedd 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cerbytffordd Tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 23 (Llanddulas) a Chyffordd 24 (Abergele), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 18:30 o'r gloch ar 15 Tachwedd 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud oddi yno yn derfynol;